

Sul y Mamau / Sul y Tadau

Darllen: Diarhebion 1:8

Cwestiwn i'r dynion. Sawl gwaith ydych chi wedi smwddio? Efallai eich bod yn hen law arni, neu efallai na wnaethoch roi cynnig arni erioed. Yn y cyd-destun hwn, meddylwch gymaint a wnaeth eich mam drosoch pan oeddech yn blentyn bach. Meddylwch am funud am y gwaith golchi. O, meddech chi, mae'r peiriant a'r *Persil* yn gwneud y gwaith yn hawdd heddiw a'r sychwr yn troelli'n brysur i sychu'r cyfan. Ond beth am smwddio? Ydyn, rydyn i gyd yn cymryd y cyfan yn ganiataol. Y cam cyntaf ar Sul y Fam ydi diolch - ac mae heddiw'n gyfle i gyfleu ein diolchgarwch iddi. Mae'n gyfle i ddweud yr hyn yr ydyn ni'n ei deimlo'n aml ond heb ei fynegi ar goedd. Felly, dyma'r cyfle. Heddiw amdani. Diolch am eu cariad a'u gofal, ac os ydyn ni'n swil ac yn teimlo'n chwithig rywsut dyma'r cyfle i roi tusw o flodau neu anrheg arall gyda chyfarchion ar y cerdyn. Bydd y neges yn sicr o fynd ymhell.

Ond fe ddylem hefyd werthfawrogi'r hyn maen nhw wedi ei ddiodeff trosom. Meddylwch am y poenau y mae'r fam yn eu diodeff. Nid sôn ydw i am boenau esgor, ond am y boen o wahanu. Mae adeg yn dod pan fod rhaid i bob mam 'golli' ei phlentyn, ac os ydi hi'n gwrthod gwneud hynny, mae yna ddieter, drwgdeimlad ac anaeddfedrwydd yn sicr o godi a datblygu. Mae'n rhaid i'r fam adael i'w phlentyn fynd, ac mae hynny'n anodd. Mewn gwirionedd, mae fel petai'n colli rhan o'i chyfansoddiad ei hun.

Fe ddaw'r dydd pan na fydd plant, wrth fynd yn hŷn, mor barod i rannu eu meddyliau â'u mamau. Ac mae'n anodd i famau wynebu hyn. Mae'r teulu'n eistedd wrth y bwrdd fel y gwnaethon nhw ar hyd y blynyddoedd, a'r fam wedi gwneud popeth iddyn nhw ond bellach ni wŷr beth sy'n mynd drwy eu meddyliau. Bydd rhaid iddi ddiodeff y distawrwydd sarrug wrth i'r plentyn fynd trwy boen y strygl i fod yn annibynnol. Ond sut mae delio â'r broses hon? Dim ond un ffordd, sef trwy ddal i garu. Mae'r fam yn dal

i garu hyd yn oed pan fydd y plant yn ymddwyn yn anodd, yn chwithig ac yn annymunol.

Mae'n rhaid nodi un rhodd, sef rhodd ffydd. Nid bod y fam yn gallu rhoi ffydd i'w phlant – ond fe all eu hysgogi. Ffydd ydi ymateb yn gadarnhaol i'r hyn sydd wedi ei gyfrannu i ni yn ystod ein bywydau. Yn y cyd-destun hwn, mae eglwys ac ysgol yn bwysig, ond beth am yr aelwyd? Beth am y fagwraeth a gawsom ar yr aelwyd – y ffordd oedd y fam yn gofalu amdanom, yn gwneud ei gorau i'n hyfforddi a'n dysgu yn yr egwyddorion Cristnogol, ac yn ehangu'n gorwelion trwy ein harwain i'r Ysgol Sul a'r oedfa o Sul i Sul?

Meddyliwch am y berchnogaeth orau y gallwn ei chael ym mherson mam – ei dealltwriaeth, ei doethineb, ei disgyblaeth, ie, a hyd yn oed ei cherydd a'i dwrdio, a'r cyfan wedi'u cyfuno yn rhwymyn cariad.

Fel y dywed y bardd Dafydd Wyn Jones:

Mam ydyw, mae'n haeddu medal – gennyf,
 Bu'n gweini yn ddyfal.
 A rhoi drosof pob gofal
 Yn ddiwyd iawn, yn ddi-dâl.

Myfyrdod pellach:

Pa ffordd ydi'r orau i blesio mam?

Beth am y syniad o'r eglwys fel mam?